

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC : John MacLennan, 19, Lon Garnedd, Abergele, LL22 7EW Ffon : 01745 826901 Sym :
07903328655 e-bost : johnmaclellan9@icloud.com

MUNUDAU'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AM 7.30y.h. DDYDD LLUN, MEDI 4ydd, 2017, YN NEUADD Y PENTREF, BETWS YN RHOS.

1. CROESO - Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Hefin Williams; yr Is-Gadeirydd, Irwedd Griffiths, a'r Cynghorwyr D.Gwyn Jones; Fiona Haf Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts a Goronwy R.Williams.

3. YMDDIHEURIADAU - Y Cynghorwyr Eifion Evans; Bryn Jones a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.

4. DATGANIADAU O DDIDDORDEB - Atgoffir yr aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddi-ddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny.

NI DDATGELWYD YR UN.

5. MUNUDAU - PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar Awst 7fed, 2017, yn y Ganolfan Gymuned, Llanellian yn Rhos.

6. MATERION YN CODI -
 - 11.16/14(iv) Gormodedd graean yn yr afon.
 - 12.16/14(i) Gwteri yn yr ardal.
 - 2.17/14(iii) Glanhau cyffredinol ffyrdd a gwteri.
 - 3.17/14(i) Tyllau ffordd rhwng Gerddi a Bryn-y-Maen.
 - 4.17/14(ii) Difrod i'r bont yn Dawn.
 - 5.17/14(ii) Gwrychoedd wedi gor-dyfu'n gorchuddio arwyddion ffordd ar Ffordd Abergele, Betws yn Rhos. Mae GF28799 yn cyfeirio.

6.17/15(v) Cais am fannau pasio ar y ffordd rhwng Tai a Phen-y-Bryn, Trofarth. Mae GF29300 yn cyfeirio.

7.17/14(i) Coed yn gor-dyfu ar Ffordd Galch. Mae GF29299 yn cyfeirio.

7,17.14(ii) Tyllau ffordd rhwng Cefn Isa a Chefn Frân. Mae GF29299 yn cyfeirio.

7.17/14(iii) Twll ffordd ger Pont Felin Person. Mae GF29299 yn cyfeirio.

7.17/14(iv) Coed yn gor-dyfu ar Ffordd Dolwen. Mae GF29299 yn cyfeirio.

7.17/14(v) Parcio peryglus yn Shire Cottage, Rhyd-y-Foel, a hefyd ger y safle adeiladu

ym Mryn Rhodyn. Mae GF29299 yn cyfeirio. Mae hyn wedi ei setlo. DIM GWEITHREDU PELLACH.

8.17/14(i) Arwydd pellter milltiroedd ger croesffordd Garnedd. Mae GF29756 yn cyfeirio.

8.17/14(ii) Arwydd perygl ar waelod allt Llanelian. Mae GF29756 yn cyfeirio.

8.17/14(iii) Coeden yn tyfu yn y bont ym Minafon. Mae GF29756 yn cyfeirio.

8.17/14(iv) Coeden yn tyfu yn wal yr ysgol. Mae GF29756 yn cyfeirio.

Yr arwydd ysgol ar gyfer Ysgol-y-Plas wedi ei orchuddio gan dyfiant gwrych. Mae GF29756 yn cyfeirio.

PENDERFYNWYD aros am adroddiad gan y Cynghorydd Sir, Ifor G. Lloyd.

7. GOHEBIAETH GYFFREDINOL -

9.17/7(i) Llythyr o ddiolch gan Mrs Ann Vaughan ynglŷn â'r grant tuag at fynwent Trofarth. NODWYD hyn gyda diolch.

9.17/7(ii) Cais gan Darren Millar AC i arddangos hysbysiadau syrjeri. CYTUNWYD i hyn.

9.17/7(iii) Ffurflen cytundeb i brynu bwth teleffon. CYTUNWYD I BRYNU'r bwth teleffon.

8. CYLLID - PENDERFYNWYD nodi ac arwyddo adroddiadau'r Banc ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Awst 26ain, 2017, sef:-

Cyfrif Cymunedol£7511.98

Cyfrif Busnes£5527.26

Mantolen cyfrifon fisol. CYNTUNWYD ar hon gan bawb.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD -- NODWYD y taliad canlynol:-

9.17/9(i) Y Praesept£3000.00

10. TALIADAU A WNAED -

PENDERFYNWYD TALU pob eitem a restrir isod:-

- i. 9.17/10(i) Cyflog y Clerc£ 287.23
siec101083
- ii. 9.17/10(ii) HMRC...(Bacs).....£ 71.81
- iii. 9.17/10(iii) Cyfieithu (hanner y gost).....£ 17.00
siec 101084
- iv. 9.17/10(iv) Torch goffadwriaeth.....£ 17.00
siec 101085
- v. 9.17/10(v) Cradur.com.....£ 24.40
siec 101086
- vi. 9.17/10(vi) Treuliau swyddfa Rhentu ystafell ... chwarter..£ (75.00)
- vii. 9.17/10(vii) Stampiau.....£
(8.40) siec 101087
- viii. 9.17/10(viii) Papur.....£ .
96 siec 101088

11. CEISIADAU AM GRANT - pob cais i'w roi ar restr y Praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf.

12. MATERION SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD.

4.16/12(i) Adroddiadau ynglŷn â materion Archwiliad Ward.

Oherwydd absenoldeb anochel y Cyngorydd Lloyd fe ohiriwyd y mater hwn.

13. MATERION CYNULLIAD CYMRU - Dim.

14. MATERION CYFFREDINOL O FEWN Y GYMUNED

9.17/14(i) Mynegwyd pryder dros y ffôn i'r Clerc ynglŷn â thynnu haen uchaf pridd o dir fferm nesaf at Fryn Rhodyn. Dywedodd y Clerc ei fod wedi siarad gyda Mr. Wood o Orfodaeth Cynllunio, a oedd wedi ymweld â'r safle ac a oedd wedi penderfynu nad oedd unrhyw dorri rheolau cynllunio ar hyn o bryd, ond roedd o wedi siarad gyda phreswilydd y fferm gan ei atgoffa y byddai angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad pellach.

9.17/14(ii) Roedd polyn BT ger Coppi Grange yn gwyro'n beryglus.

9.17/14(iii) Roedd adroddiad wedi ei dderbyn am lysiau'r dial yn yr afon ger Cilgwyn, a hefyd i lawr yr afon i Ddolwen.

9.17/14(iv) Roedd y tir i gefn y garej yn Llais Afon wedi ei or-dyfu gan goed.

15. UNRHYW FATER ARALL

9.17/15(i) Cyfarfodydd y Cyngor yn Awst a Rhagfyr. Roedd y mater o gyfarfod yn Awst a Rhagfyr wedi ei godi gan aelod. Dywedodd y Clerc nad oedd unrhyw un o'r Cyngorau Cymuned yn yr ardal yn cyfarfod ym mis Awst. Roedd hyn yn bennaf gan nad oedd y Cyngor Sir yn cyfarfod gyda'r mwyafrif o'i bwyllgorau, ac mai cyfarfodydd brys yn unig oedd yn eithriadau. Cafwyd trafodaeth a PHENDERFYNWYD NA FYDDAI'R Cyngor Cymuned yn cyfarfod ym mis AWST.

9.17/15(ii) Gwefan y Cyngor. Dywedodd y Clerc fod angen peth gwaith ar y wefan. PENDERFYNWYD gofyn i Mr. Arfon Parry o Cradur.com i ddelio gyda hyn.

16. CYNLLUNIO -

9.17/16(i) 0/44267 Gwaith newnol arfaethedig yn cynnwys llyfrgell oriel ac ystafell storfa lawr gwaelod (caniatâd adeilad cofrestredig) yn Ffarm Country House, Ffordd Cil Llidiart, Betws yn Rhos. Mr Stewart Lawson. PENDERFYNWYD DIM GWRTHWYNEBIAD.

9.17/16(ii) Rhestr penderfyniadau cynllunio. NODWYD hyn.

17. MATERION ARCHWILIAD -

9.17/17(i) Adroddiad cychwynnol gan Archwiliwyr Allanol. Trafodwyd hwn gan aelodau. Dywedodd y Clerc mai ar y cyfan sylwadau a manylion ynglŷn â'r wefan oedd pryder yr Archwiliwyr.

ER GWYBODAETH

Atgoffir aelodau y paratoir y Praesept ym mis Tachwedd, ac felly y dylid hysbysu'r Clerc am bob eitem yr hoffent eu cynnwys erbyn diwedd mis Medi.

Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod ac fe gaewyd y cyfarfod am 8.40y.h.

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....

.....